PWYLLGOR GWASANAETHAU LLES A IECHYD 01.04.04

Presennol:- Y Cynghorydd Michael Clishem (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Dylan Edwards, William Arthur Evans, Peter Gaffey, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Henry Jones, Linda Wyn Jones, R.L. Jones, Dafydd Owen, W. Roy Owen, W. Tudor Owen, Ieuan Roberts, Jean Roscoe, Arthur Wyn Rowlands a R.H. Wyn Williams.

Hefyd yn bresennol:- Ffrancon Williams (Pennaeth Gwasanaeth Tai), Glyn Hughes (Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol), Gareth Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Emyr Vaughan Evans (Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad - Gofal), David Humphreys (Rheolwr Polisi Tai), G. Rhys Thomas (Rheolwr Tai Sector Preifat), Gerry Baker (Pen Swyddog Tai Sector Preifat), Gareth Parri (Swyddog Polisi Tai Sector Cyhoeddus), Simon Smith (Beha Williams Norman Ltd), Paul Brackett (Beha Williams Norman Ltd), Michael Howard (Michael Howard Associates) a Llywela Haf Owain (Clerc Pwyllgor).

Ymddiheuriadau:- Y Cynghorwyr Tony Eccles a Pat Larsen.

1. ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Michael Clishem i'r gadair am weddill y flwyddyn gyfredol.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd R. L. Jones yn is-gadeirydd am weddill y flwyddyn gyfredol.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y canlynol fuddiant personol am y rheswm a nodir isod:

1) Datganodd y Cynghorydd Keith Greenly-Jones fuddiant yn eitem 8 gan ei fod yn y broses o brynu tŷ Cyngor gan Gyngor Gwynedd.
2) Datganodd y Cynghorydd Jean Roscoe fuddiant yn eitem 9 gan bod ei bod yn un o gyfarwyddwr Gofal a Thrwsio.

4. COFNODION

Llofnododd y cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2004, fel rhai cywir.

Materion yn codi

Tanwariant Grantiau Tai

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod nododd yr Uwch Reolwr Rheoli a Pherfformiad - Gofal y cynhelir yr ail gyfarfod o'r Gweithgor Tanwariant Grantiau Tai ar 28 Ebrill

ac y bwriedir cynnal y trydydd un yn ystod mis Mai. Nododd y bydd adroddiad am waith y gweithgor yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor nesaf a gynhelir ym mis Mehefin.

5. TASGLU ADOLYGU POLISI GOSOD TAI

Adroddwyd y derbyniwyd cais gan Bwyllgor Ardal Arfon i'r pwyllgor hwn alw cyfarfod o'r Tasglu Adolygu Polisi Gosod Tai er mwyn trafod y system pwyntiau ar gyfer y digartref.

Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad nad oedd y tasglu uchod yn weithredol bellach gan ei fod wedi cyflawni ei swyddogaeth. Awgrymodd y dylid sefydlu grwp tasg er mwyn trafod y system bwyntiau ar gyfer y digartref gyda cadeirydd y pwyllgor hwn a chynghorwyr eraill yn aelodau.

PENDERFYNWYD:

i) sefydlu grŵp tasg, a fydd yn cynnwys cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Lles a Iechyd a phedwar aelod arall yn ogystal â'r arweinydd portffolio, er mwyn ail-edrych ar y system bwyntiau ar gyfer y digartref

ii) ethol y canlynol i eistedd ar y grŵp tasg adolygu system bwyntiau y digartref:
Cynghorwyr Michael Clishem (cadeirydd), Gwen Griffith, Peter Gaffey, Linda Wyn Jones (arweinydd portffolio), R. L. Jones a W. Tudor Owen.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL TREFN GWYNO Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad ar y drefn gwyno ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc gan gynnwys gwybodaeth am y sylwadau a chwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn 2003. Adroddwyd y derbyniwyd cyfanswm o 158 o sylwadau, 92 ohonynt yn rai cadarnhaol, 65 yn gwynion anffurfiol ac un gwyn ffurfiol. Nodwyd bod y nifer o gwynion ffurfiol wedi gostwng. Ategwyd y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn dal i ddelio gyda chwynion yr uned ddarparu er bod y gwasanaeth o dan arweiniad Pennaeth Gwasanaeth gwahanol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol:

i) bod cyfle i blant a phobl ifanc fynegi eu barn ar y gwasanaeth boed yn gwyn neu ganmoliaeth. Ymhelaethodd pe cyflwynir cwyn y penodir dau berson annibynnol i ymchwilio a delio gyda'r gwyn. Nododd nad oes Swyddog Gofal Cwsmer ar gyfer cwynion plant yn unig.

ii) ei fod yn cytuno nad yw nifer o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn datgan eu barn am y gwasanaeth. Fodd bynnag nododd nad oedd yn credu bod y drefn gwyno yn llethu pobl ac yn eu hymatal rhag cwyno.

iii) y penodwyd ef i fod yn rhan o'r grŵp a fydd yn gyfrifol am gyhoeddi dogfen derfynol Cynulliad Cenedlaethol Cymru parthed y drefn gwyno newydd. Ategodd nad yw'r newidiadau deddfwriaethol i orfodi awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r gofynion newydd wedi eu cyhoeddi eto.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.

7. STRATEGAETH ASBESTOS

Cyflwynwyd adroddiad diwygiedig y Rheolwr Datblygu Eiddo Uned Weithredol Cynnal a Chadw Tai, a ddosbarthwyd ar gychwyn y cyfarfod, ar y strategaeth asbestos gan y Pennaeth Gwasanaeth Tai.

Adroddwyd ei bod yn gyfrifoldeb bellach ar y rhai sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw ac atgyweirio eiddo anomestig i reoli'r risg a gyfyd o asbestos. Er nad yw hi yn orfodol i'r Cyngor greu a mabwysiadu cynllun asbestos ar hyn o bryd rhagwelir y bydd hyn yn angenrheidiol ar gyfer yr holl eiddo preswyl dan rent yn y dyfodol. Ymhelaethwyd ar y strategaeth arfaethedig, yn arbennig y prif ofynion ar y sawl sydd â chyfrifoldeb dros asbestos, cofrestr asbestos tai, y polisi rheoli, yr arolwg asbestos, defnydd o gontractwyr arbenigol, gwaredu asbestos a'r Cyngor a roddir i denantiaid. Ategwyd y gobeithir y bydd y gofrestr asbestos yn fyw ym mis Tachwedd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau nododd Pennaeth Gwasanaeth Tai y canlynol:

i) ei bod yn gyfrifoldeb ar bob tenant i hysbysu'r Cyngor o unrhyw waith a wneir ar dŷ gan gynnwys tynnu asbestos. Fodd bynnag pwysleisiodd ei bod yn anodd monitro hyn a bod gwaith yn cael ei wneud o bryd i'w gilydd heb hysbysu'r Cyngor. Ychwanegodd y bwriedir darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am asbestos drwy'r papur newydd "Newyddion" a ddosbarthir i holl dai'r sir.

ii) mai'r bwriad ydyw penodi contractwr arbenigol trwyddedig i dynnu asbestos o eiddo ac nid defnyddio gweithwyr y Cyngor. Nodwyd mai trwy dendr y bwriedir pennu contractwyr ar ôl mabwysiadu'r strategaeth.

iii) yr anogir Cynghorwyr i gysylltu â'r uned weithredol cynnal a chadw tai os ydynt yn bryderus am eiddo sy'n cynnwys asbestos. Pwysleisiodd nad oes llawer o risg yn gysylltiedig â asbestos heb ei darfu.

iv) bod y Cyngor yn ymwybodol bod asbestos mewn unedau a ddefnyddir fel ystafelloedd ymolchi yn Maes Barcer yng Nghaernarfon a bod cynlluniau ar y gweill i ddelio â hyn. Ymhelaethodd bod cynlluniau o ystafelloedd ymolchi newydd wedi eu cyflwyno i denantiaid gan ymgynghorwyr ac y cyflwynir hwy i'r Bwrdd cyn hir. Ategodd nad oes modd cael grant i wneud y gwaith arfaethedig.

v) ei fod yn ymwybodol y bydd costau gwaredu asbestos yn cynyddu yn sgil y ffaith y bydd yn rhaid cludo'r gwastraff yr holl ffordd i Warrington, ac na ellir gwneud unrhywbeth ynglŷn â hyn.

vi) bod gweithwyr y Cyngor wedi derbyn hyfforddiant ynglŷn a ymwybyddiaeth o asbestos a bod y drefn ar gyfer delio â asbestos wedi ei atgyfnerthu. Ategodd ymhen amser bydd modd i bob gweithiwr ddarganfod ble mae asbestos drwy ddefnyddio'r bas data asbestos.

Ategodd yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad – Gofal ei fod yn cytuno bod lle i gryfhau y cysylltiadau rhwng tenantiaid a'r Cyngor a y bwriedir adolygu'r drefn bresennol.

Llongyfarchwyd y gwasanaeth am eu gwaith rhagorol.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth.

8. CYNLLUN HAWL I BRYNU

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad – Gofal ar y cynllun hawl i brynu presennol yn sgil cais gan Bwyllgor Ardal Dwyfor – Gwasanaethau i'r pwyllgor hwn drafod y mater.

Adroddwyd bod y pwyllgor uchod yn awyddus i'r pwyllgor hwn ystyried a ddylid pwyso unwaith yn rhagor ar y Cynulliad i ddileu'r hawl sy'n caniatáu i denantiaid brynu tai Cyngor, a ddylid ail-gyflwyno cynllun disgownt trosglwyddiadwy a fyddai yn caniatáu i denantiaid brynu tai yn y sector preifat ac a ddylid cysoni gweithrediad yr amod sydd yn rhwystro ailwerthu tai os nad yw'r prynwr yn berson lleol a mabwysiadu rheoliadau newydd y Cynulliad ar yr ardaloedd lle y gellir gweithredu'r fath amod. Nodwyd nad oes modd dileu'r hawl i brynu heb ddeddfwriaeth gan fod hyn yn rhan o'r Deddf Tai 1985 a grëwyd gan y Senedd. Ychwanegwyd nad oes modd ail-gyflwyno'r Cynllun Disgownt Trosglwyddiadwy oherwydd nad yw'r cyfalaf ar gael ar hyn o bryd.

Nododd yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad nad oes cysondeb ar hyn o bryd ar draws y sir ynglŷn â'r amod gwerthu ymlaen. Eglurodd bod dau opsiwn wedi eu cyflwyno i'r aelodau a fydd yn gymorth i ddileu'r anghysondeb er mwyn ceisio datrys hyn.

a) cyfyngu'r gwerthu ymlaen i bersonau sydd, am y cyfnod o 3 mlynedd cyn y cais am ganiatâd i werthu ymlaen, wedi byw neu weithio o fewn 'Rhanbarth Ddynodedig' sef ardal Cyngor Gwynedd neu Barc Cenedlaethol Eryri.
b) gosod amod ar y gwerthiant gwreiddiol na all yr eiddo gael ei werthu ymlaen yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd o'r gwerthiant gwreiddiol heblaw bod y perchennog wedi cynnig gwerthu'r eiddo yn ôl i'r Cyngor a bod y Cyngor wedi gwrthod y cynnig neu heb ymateb o fewn mis o'r cynnig hwnnw.

Nododd rhai o'r aelodau nad oeddynt yn credu bod y diffiniad o 'bobl leol' yn gywir ac y dylai'r prynwr fod wedi byw neu weithio yn y 'Rhanbarth Ddynodedig' am gyfnod o 10 mlynedd. Mynegwyd hefyd bryder fod y tai a werthwyd o dan y cynllun hawl i brynu yn cael eu gwerthu ymhen amser fel tai Haf a bod prinder tai fforddiadwy yn y sir. Mewn ymateb i'r uchod nododd yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad na ellir newid y diffiniad o 'lleol' gan mai dyna'r diffiniad a ddefnyddir yn y ddeddf tai. Ategodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol bod yn rhaid gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth ac na fyddai yn bosibl ychwanegu amod bod rhaid arwyddo cytundeb 106.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed darpariaeth tai ar gyfer yr henoed nododd yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad – Gofal ei fod yn cytuno bod angen ail-edrych ar y polisi gosod tai i'r henoed. Eglurodd oherwydd diffyg galw am dai pwrpasol i'r henoed mewn rhai ardaloedd bod pobl o dan 60 oed yn cael symud yno.

Mynegodd yr aelodau hefyd eu dymuniad i anfon neges gryf i Lywodraeth Cynulliad Cymru bod angen rhagor o adnoddau ar gynghorau er mwyn adeiladau tai Cyngor newydd i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy lleol.

PENDERFYNWYD:

i) bod y pwyllgor hwn yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar ddatblygiad y mesur tai trwy'r Senedd a'r effaith y caiff hyn ar weinyddiaeth y cynllun Hawl i Brynu

ii) bod y swyddogion perthnasol y Gwasanaeth Tai yn cysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn:

a) holi a phwyso arnynt i i ryddhau cyfalaf arbennig i'r awdurdodau lleol i weinyddu'r Cynllun Disgownt Trosglwyddiadwy ac i adeiladu tai Cyngor newydd

b) datgan pryder y pwyllgor hwn parthed diffyg tai fforddiadwy yng Ngwynedd

iii) adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn maes o law parthed ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r uchod.

iv) argymell bod Bwrdd y Cyngor yn cyfyngu gwerthu ymlaen eiddo mewn 'Rhanbarth Ddynodedig' i bersonau sydd, am gyfnod o 3 mlynedd cyn y cais am ganiatâd i werthu ymlaen, wedi byw neu weithio o fewn y 'Rhanbarth Ddynodedig'.

9. STRATEGAETH POBL HYN

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Cydlynu Strategaeth Pobl Hyn ar gynllun datblygu amlinellol strategaeth pobl hŷn gan yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad - Gofal. Adroddwyd y lansiwyd y strategaeth ar gyfer pobl hŷn gan Lywodraeth y Cynulliad yn Ionawr 2003 ac y neilltuwyd £35,000 i bob awdurdod i apwyntio Swyddog Datblygu i sefydlu strategaeth leol. Ymhelaethwyd bod y swyddog wedi datblygu'r cynllun drwy ymgynghori gyda nifer o grwpiau henoed, swyddogion Cyngor ac asiantaethau gwirfoddol. Ategwyd mai un o brif flaenoriaethau y strategaeth ar gyfer Cyngor Gwynedd fydd y thema strategol 'Parchu Pobl Hŷn'. Nodwyd y cyflwynwyd y strategaeth ddrafft arfaethedig i Fwrdd y Cyngor a'r Cynulliad canol mis Mawrth 2004.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan aelodau nododd yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad – Gofal bod swyddogion yn cael eu penodi gan y Gwasanaeth Cyllid i geisio hybu pobl i wneud ceisiadau am fudd-daliadau treth. Nododd hefyd y byddai modd cydweithio gyda asiantaethau megis Age Concern er mwyn i'r henoed gael cymorth i lenwi ffurflenni cais am fudd-daliadau a gostyngiad mewn treth. Ychwanegodd y bydd y strategaeth trosedd ac anrhefn hefyd yn rhoi sylw i faterion sydd yn berthnasol i'r henoed.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth.

10. STRATEGAETH DAI AR GYFER POBL DDUON A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad ar yr uchod gan yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad - Gofal.

Adroddwyd y lluniwyd y strategaeth, sy'n cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer pob awdurdod lleol ar y cyd â awdurdodau lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Nodwyd bod y strategaeth a'r cynlluniau gwaith yn ddogfennau cyfamserol oherwydd nad yw pob awdurdod wedi rhoi sêl bendith arnynt eto. Ategwyd y bwriedir lansio'r strategaeth hon ar 23 Ebrill, 2004.

Nododd aelod ei bod yn bwysig bod pob sir yn darparu gwasanaeth ar gyfer y gymuned deithiol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau cadarnhaodd swyddogion bod y strategaeth yn nodi y dylid rhoi pecyn ynglŷn â iaith a diwylliant i'r rhai sy'n mewnfudo i Wynedd.

PENDERFYNWYD:

i) derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad

ii) derbyn a mabwysiadu y strategaeth a'r cynllun gweithredu cyfamserol

iii) cyflwyno'r strategaeth a'r cynllun gweithredu i Fwrdd y Cyngor.

11. PROSIECT CYSONI RHENT

Croesawyd Simon Smith a Paul Brackett o gwmni Beha Williams Norman Ltd i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd gwybodaeth gefndirol am y prosiect cysoni rhent gan yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad. Eglurodd yn sgil yr ad-drefnu yn 1996 yr eiteifeddwyd cyfraddau rhent amrywiol ar draws y sir ac er mwyn ceisio darganfod ffordd deg o unioni hyn penodwyd cwmni Beha Williams Norman Ltd i ymchwilio i'r mater ac i lunio cyfrifiad a chynllun rhent a ellid ei ddefnyddio ar draws y sir.

Cafwyd cyflwyniad ar y prosiect cysoni rhent gan Simon Smith a Paul Brackett a chyfeiriwyd at y prif bwyntiau canlynol:

i) y bu'r cwmni mewn trafodaethau gyda swyddogion ynghylch casglu data cyfredol a dewisiadau a allai fod yn sylfaen i'r patrwm ar gyfer cyfrifo strwythur newydd ar gyfer rhenti. Nodwyd bod y patrwm gweithredol arfaethedig yn dangos sut y bydd y rhenti presennol yn newid yn raddol er mwyn cyrraedd y rhent targed. Ategwyd yr eithriwyd siopau a thaliadau ychwanegol o'r data gwreiddiol a dderbyniwyd.

ii) mai'r cyfartaledd rhent ar gyfer stoc tai'r Cyngor yw £44.90. Er mwyn pennu rhent darged newydd casglwyd manylion am gyfeiriad, nifer yr ystafelloedd gwely, math o eiddo a rhent presennol y stoc tai. Cyfrifwyd y rhent darged drwy ddefnyddio pwysiad allweddol rhwng y nifer o ystafelloedd (60%) a math o dŷ (40%). O fewn y ddau gategori defnyddir pwysiadau eraill hefyd. Eglurwyd os oes newid i un o'r pwysiadau y bydd y fformiwla a ddefnyddir yn ailgyfrifo'r rhent targed ar gyfer yr eiddo dan sylw. Nodwyd bod y fformiwla ar gyfer y model hefyd yn cymryd i ystyriaeth chwyddiant

iii) y rhagwelir y bydd mwyafrif o'r stoc yn talu'r un faint o rent mewn 15 mlynedd os y defnyddir y model arfaethedig. Ychwanegwyd bod modd addasu ychydig ar y model.

Yn dilyn hyn cafwyd sesiwn holi ac ateb ar y cyflwyniad. Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau nododd Simon Smith a Paul Brackett:

i) bod modd addasu rhywfaint ar y model drwy ychwanegu categorïau eraill. Fodd bynnag pwysleisiodd bod angen i bob categori fod yn wrthrychol ac yn un a all ddarparu gwybodaeth ddibynadwy. Eglurwyd na fyddai yn ymarferol seilio'r model ar werth tŷ neu incwm tenant.

ii) y cymerwyd ciplun o stoc tai'r Cyngor ar adeg penodol ac na ddylid tynnu'r stoc a werthwyd ers hynny o'r model.

iii) y gellid cyflwyno budd-dal rhent arbennig i rai gyda anabledd ond na ddylid cymryd hynny i ystyriaeth yn y model cysoni rhent.

Ategodd yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformaid (Gofal) nad gynhwyswyd modurdai a siopau yn y model oherwydd y pennir y rhent arwahan. Nododd hefyd bod rhaid gwneud y math hwn o gynllun dros gyfnod o amser er mwyn sicrhau tegwch i'r holl denantiaid.

Nododd yr aelodau eu dymuniad i gyflwynwyr ddefnyddio microffon llaw wrth wneud cyflwyniad i aelodau er mwyn sicrhau fod pawb yn y siambr yn clywed.

PENDERFYNWYD:

i) defnyddio'r pwysiad allweddol canlynol yn y model:
Nifer yr ystafelloedd gwely 60%
Math yr eiddo 40%

ii) cyfyngu'r cynnydd sydd ei angen ar gyfer pob eiddo er mwyn cyrraedd eu rhent targed ar sail cyfres o baramedrau penodedig i £2

iii) cyfyngu'r gostyngiad sydd ei angen ar gyfer pob eiddo er mwyn cyrraedd eu rhent targed ar sail cyfres o baramedrau penodedig i £2

iv) y dylid ystyried ychwanegu categori tai ar gyfer rhai â anableddau

12. AROLWG TAI SECTOR PREIFAT

Croesawyd Michael Howard o gwmni Michael Howard Associates i'r cyfarfod.

Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad Gofal y comisiynwyd Michael Howard Associates i gynnal arolwg o gyflwr tai yn y sector preifat yng Ngwynedd. Bwriedir defnyddio canlyniadau'r arolwg i gynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu'r strategaeth tai lleol.

Rhoddwyd cyflwyniad ar yr arolwg gan Michael Howard. Adroddwyd y canlynol:

i) y detholwyd sampl o 1548 o dai, yn cynrychioli 2.10% o stoc tai Gwynedd, ar draws y tair ardal. Canfyddwyd bod nifer o dai Haf yn cael eu cadw'n wag a bod y gyfradd o bobl sydd berchen tai yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nodwyd bod y meiddianir 94.5% o'r eiddo gan un teulu ac mai dim ond 5.4% o'r stoc sy'n fflatiau. Ategwyd bod tystiolaeth gadarn yn dangos bod cyflwr tai yn eithaf drwg yn y sector preifat.

ii) y darganfyddwyd ar gyfartaledd bod 8.96% o'r tai yn anaddas a bod angen gwariant o £4.8 miliwn arnynt er mwyn sicrhau eu bod cyrraedd safon dderbyniol. Er mwyn delio gyda thai anaddas a gwaith atgyweirio bydd angen gwariant sy'n cyfateb i £131.17 miliwn.

iii) y canfyddwyd bod pen neu bartner mewn 25.2% o deuluoedd yn ystyried eu hunain fel rhywun sydd yn anabl neu wedi dioddef salwch tymor hir a bod posibilrwydd na all 38.6% o'r teuluoedd fforddio talu am ynni. Ategwyd bod oddeutu 43.5% o deuluoedd yng Ngwynedd yn derbyn incwm sy'n llai na £10,000 y flwyddyn. Pwysleisiwyd y dylid ymateb i broblemau cymdeithasol ac economaidd sydd ynghlwm â materion tai.

iv) argymhellwyd y dylid sicrhau bod y strategaeth tai yn cynyddu'r gwaith rhagweithiol a wneir yn y sector preifat er mwyn gwella safonau tai preifat. Nodwyd hefyd y dylid creu partneriaethau gyda'r rhai sydd yn gweithio yn y maes effeithlonrwydd ynni er mwyn hybu effeithlonrwydd ynni yn y cartref yn ogystal â chreu strategaeth i daclo tlodi ynni mewn cydweithrediad â asiantaethau eraill. Ychwanegwyd bod angen rhoi sylw i'r cynnydd cynyddol mewn galw am dai ar gyfer yr anabl.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod nododd yr Uwch Reolwr Polisi a Pherfformiad bod yr arolwg hwn wedi costio £44,000 ond y telir hanner y gost drwy gymorth grant.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a gofyn i swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar flaenoriaethu cymorth adnewyddu tai at y dyfodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 pm a daeth i ben am 3:30 pm.